

Casglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Phil Higginson

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: phil@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC

Ffordd Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 3 Mawrth 2017 i:

Cangen Ddata'r Gweithlu Addysg
Uned Strategaeth y Gweithlu
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: educationworkforcedata@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig (opsiwn 5) i gynnal cyfrifiad lefel unigolion ar y gweithlu ysgolion sy'n defnyddio Cofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg?

Os ydych chi'n anghytuno, a fyddai opsiynau 1 i 4 yn fwy addas?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

1.1 Mae UCAC yn cydnabod pwysigrwydd casglu data cywir a chyfredol er mwyn cynllunio'r gweithlu addysg yn strategol. Mae hyn yn allweddol ar gyfer ateb gofynion y byd addysg o ran niferoedd o ymarferwyr mewn meysydd penodol. Mae e hefyd yn allweddol ar gyfer gweithredu argymhellion Donaldson, chynllunio'r gweithlu i gyrraedd y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a gwireddu polisiau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru.

1.2 Heb ddata cywir a chyfredol, ni fydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru adnabod nodweddion ac anghenion y gweithlu addysg yng Nghymru, fel y nodir yn y Memorandwn Esboniadol (4.10). Gyda datganoli Cyflog ac Amodau athrawon i Gymru, y mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol.

- 1.3 Mae UCAC yn croesawu'r nod o ddiddymu'r CYBLD a chasglu data blynyddol am absenoldeb salwch athrawon, ac yn eu lle cynnal un cyfrifiad lefel unigolion ym mis Tachwedd.**
- 1.4 Noda UCAC fod opsiynau 4 a 5 ill dau yn cynnwys cynnal cyfrifiad lefel unigolion o ysgolion ac awdurdodau lleol. Byddai opsiwn 5 hefyd yn casglu a chysylltu gwybodaeth o gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg.**
- 1.5 Sut mae sicrhau y "byddai'r cyfrifiad yn cydymffurfio ag egwyddorion craidd y Ddeddf Diogelu Data, gyda'r sicrwydd y bydd data personol yn cael ei gadw'n gwbl ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio at y diben bwriedig yn unig"? Byddai rhaid cael mwy o fanylder cyn ffafrio opsiwn 5 ar draul opsiwn 4.**
- 1.6 Credwn ei bod yn bwysig iawn na fyddai casglu'r wybodaeth ar lefel unigol yn ychwanegu at lwyth gwaith sylweddol athrawon na phenaethiaid.**
- 1.7 Nodwch eich bod am osgoi ailadrodd wrth gasglu data. Croesawn hyn gan na chredwn fod cyflwyno'r un data yn flynyddol os na fu newid y defnydd gorau o amser.**

Cwestiwn 2 – Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau drafft yn cynnig y bydd gan ysgolion, awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg 27 diwrnod i gwblhau'r ffurflenni data gyda'r cyfrifiad i'w gynnal ym mis Tachwedd. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/> x	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	----------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

2.1 A bwrw bod y system ddiogel o drosglwyddo data a gyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol (9.59-9.60) yn barod, ac yn cyfathrebu'n ddidrafferth gyda'r systemau data a geir mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, dylai cyfnod o 27 diwrnod o waith fod yn ddigonol.

Cwestiwn 3 – Pa ffynonellau data am y gweithlu ysgolion ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd?

Crynodeb Ystadegau Blynyddol CGA	x <input type="checkbox"/>	Bwletin blynyddol CYBLD	<input type="checkbox"/> x	Data agored StatsCymru	<input type="checkbox"/> x	Dim un	<input type="checkbox"/>
Arall (nodwch)			<input type="checkbox"/>			

Sylwadau ategol

Rydym wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol o bob un o'r ffynonellau hyn, ond byddai'n haws ymdrin â gwybodaeth ar yr un ffurf. Mae rhai materion yn eisiau o'r ystadegau; er enghraifft, data er mwyn helpu cynllunio ar gyfer recriwtio a chadw pobl yn y proffesiwn. Hefyd, mae data agored StatsCymru yn anodd i'w ddehongli.

Cwestiwn 4 – Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau drafft yn cynnig casglu eitemau o ddata mewn saith categori (manylion staff, contract a chytundeb gwasanaeth, absenoldebau, cwricwlwm, cymwysterau, recriwtio a chadw, iaith Gymraeg a chyfrwng Gymraeg). Ydych chi'n cytuno â chasglu'r categorïau hyn?

Categori data	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Manylion staff	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	x <input type="checkbox"/>
Contract a chytundeb gwasanaeth	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Absenoldebau	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cwricwlwm	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymwysterau	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Recriwtio a chadw	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Iaith Gymraeg a chyfrwng Gymraeg	x <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau ategol

4. O ran casglu data absenoldebau, deallwn yr angen i sicrhau gwybodaeth gywir at bwrpas talu cyflog a thaliadau statudol, ond mae gennym ofidiau ynglŷn â defnyddiau posibl eraill y gellir eu gwneud gyda'r data hyn. Mae'n bwysig cadw cyfrinachedd o ran adnabod yr unigolyn.

Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau ddrafft arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

5. Mae angen sicrhau bod rhyngwyneb unrhyw system a ddatblygir ar gael yn y Gymraeg, fel y bo modd mewnbynnu, darllen a lawrlwytho data yn y Gymraeg.

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y rheoliadau ddrafft arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

6.1 Dylid ymgynghori'n bellach ac yn fanylach gyda rhanddeiliaid i lunio cwestiynau i fesur hyder a hyfedredd yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gallai hyn fod yn werthfawr o ran ehangu'r gweithlu addysg Gymraeg, o ran athrawon a chymorthyddion. Hyderwn bydd y gwaith paratoi sydd wedi ei gychwyn gan y Llywodraeth ar gyfer casglu data yn dod â gwybodaeth fwy penodol am y gweithlu addysg, gan gynnwys lefel hyfedredd / cymwysterau Cymraeg a dyheadau'r gweithlu ar gyfer eu gyrfa. Mae'n bwysig defnyddio dull effeithiol, hwylus o gasglu data angenrheidiol ac i wneud hyn cyn gynted â phosib.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

7. Mae gan UCAC bryderon ynglŷn â dilysrwydd corff proffesiynol megis Cyngor y Gweithlu Addysg yn rhannu data ar lefel yr unigolyn gyda'r Llywodraeth. A oes cynsail i hyn? Sut y gesglir data am y gweithlu lechyd yng Nghymru, er enghraifft? A oes rheidrwydd ar gyrff proffesiynol megis y GMC a'r RCN i rannu data gyda Llywodraeth Cymru?

Mae'r sawl sydd yn cofrestru eu manylion gyda'r CGA yn gorfod cofrestru, a thalu i wneud hynny. Mae yna ddealltwriaeth glir bod y CGA yn cadw eu manylion personol yn gyfrinachol. Wrth gwrs, gellid trosglwyddo crynodeb o wybodaeth i'r Llywodraeth, er mwyn diwallu anghenion ystadegol heb dramgwyddo cyfrinachedd yr unigolyn.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma

